# AC(2) 08-04(min)

# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion

**Dyddiad:** 30 Medi 2004

**Amser:** 9.30 tan 10.45am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Bae Caerdydd

| **Aelodau** | **Yn bresennol** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Maldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Dr Clive Grace | Cyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru |
| Anthony Snow | Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru |
| Dave Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau buddiant.**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r swyddogion i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad oddi wrth Val Lloyd.

## Eitem 2: Cloriannu gwaith archwilio gwerth am arian ers datganoli

2.1 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a chanmolodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am eu gwaith hyd yn hyn, sydd wedi helpu i arbed dros £35 miliwn.

2.2 Amlinellodd Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad y mecanweithiau oedd yn eu lle i olrhain a monitro hynt argymhellion y Pwyllgor. Roedd hynt y broses o'u gweithredu yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cynulliad, a oedd yn cael ei gadeirio gan un o gyfarwyddwyr anweithredol y Cynulliad. Pe bai un o'r argymhellion y cytunwyd arnynt heb gael ei weithredu, gallai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ofyn i Bennaeth yr Is-adran dan sylw am esboniad. Byddai modd gosod y mater gerbron y Bwrdd Gweithredol hefyd.

2.3 Dywedodd Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad wrth y Pwyllgor nad oedd polisi penodol ar sut y dylid defnyddio'r arbedion ariannol a geir yn sgil gweithredu argymhellion archwiliadau.

2.4 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y trefniadau canolog ar gyfer olrhain a monitro argymhellion archwiliadau yn cyfrannu at lwyddiant y broses gyffredinol o'u gweithredu yng Nghymru.

2.5 Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg cymhwysedd masnachol yn y Cynulliad ac yn y cyrff cyhoeddus a noddir ganddo, yn enwedig o ran caffael. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn ceisio annog staff y Cynulliad i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau priodol. Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ystyried cynnwys astudiaeth o 'gymhwysedd masnachol' yn ei raglen o archwiliadau gwerth am arian yn 2005-06.

2.6 Cafwyd trafodaeth ynghylch rôl y Pwyllgor wrth fynd ar drywydd argymhellion na chawsant eu gweithredu'n llawn. Gallai'r Pwyllgorau Pwnc chwarae rôl bwysig wrth fonitro argymhellion archwiliadau, a dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod Panel y Cadeiryddion yn y dyfodol.

2.7 Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor ar hynt y broses o weithredu ei argymhellion. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb penodol yn yr arbedion ariannol a'r arbedion ariannol posibl, ynghyd â'r amserlen. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn cael nodyn ar hynt y broses o weithredu'r argymhellion a nodwyd yn ei adroddiad "Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol'.

## Pwyntiau Gweithredu

Archwilydd Cyffredinol Cymru i ystyried cynnwys astudiaeth ar 'gymhwysedd masnachol' yn ei raglen o archwiliadau gwerth am arian yn 2005-06 - Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor ar hynt y broses o weithredu ei argymhellion - Archwilydd Cyffredinol Cymru

Y Cadeirydd i sôn am rôl bosibl y Pwyllgorau Pwnc wrth fonitro argymhellion archwiliadau yng nghyfarfod Panel y Cadeiryddion yn y dyfodol - Cadeirydd, Gwasanaeth y Pwyllgorau.

Y Pwyllgor i gael nodyn ar hynt y broses o weithredu'r argymhellion a nodwyd yn ei adroddiad 'Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol' - Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Eitem 3: Rhaglen archwiliadau gwerth am arian 2005-06

3.1 Cafwyd y sylwadau canlynol gan yr Aelodau ar y rhaglen:

- dylai'r archwiliad arfaethedig 'Gwella cyfranogiad a chwblhau mewn addysg uwch' gynnwys ystyriaeth o'r adnoddau sydd ar gael i'r sefydliadau, yr adnoddau a ddefnyddir gan y sefydliadau i wella mynediad, a'u dull rheoli cyffredinol, a allai fod yn rwystr ynddo'i hun;
- dylai'r archwiliad arfaethedig amgen 'Iechyd ariannol sefydliadau addysg bellach' asesu i ba raddau y mae sefydliadau addysg bellach wedi dod i ddibynnu ar gyllid o Ewrop;
- dylai'r archwiliad arfaethedig amgen 'Bodlonrwydd cwsmer amgueddfa' gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- dylai'r rhaglen gynnwys astudiaeth ar 'gymhwysedd masnachol' yn y Cynulliad ac yn y cyrff cyhoeddus a noddir ganddo;
- o gofio ymrwymiad statudol y Cynulliad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, dylid rhoi blaenoriaeth ddigonol i'r archwiliad 'Datblygu Cynaliadwy: gwneud penderfyniadau a mesur perfformiad' er mwyn sicrhau bod adroddiad yn cael ei lunio cyn diwedd yr Ail Gynulliad.

3.2 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'n cyflwyno ei raglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian yn 2005-06 gerbron y Pwyllgor maes o law.

## Pwynt Gweithredu

Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'n cyflwyno ei raglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian yn 2005-06 gerbron y Pwyllgor maes o law - Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Eitem 4: Amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2006

4.1 Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru yr amcangyfrif. Er mai tasg y Pwyllgor oedd cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, pwysleisiodd na fyddai'n cael adroddiadau a

oedd yn sôn yn benodol am y gwaith archwilio ac arolygu yr oedd y Swyddfa yn ei wneud ar lywodraeth leol.

4.2 Cafodd yr Aelodau eglurhad o'r pwyntiau canlynol:

- a oedd arbedion maint yn bosibl gan gynnwys arbedion o ran costau a'r amserlen;
- pryd yr oedd Tollau Tramor a Chartref yn debygol o benderfynu ar y trefniadau Treth ar Werth ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru;
- beth fyddai effaith cyfuno swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth y Cynulliad;
- natur a hyd a lled yr atebolrwydd posibl a'r asedion a fyddai'n cael eu trosglwyddo o'r sefydliadau presennol i Swyddfa Archwilio Cymru;
- i ba raddau y gall Swyddfa Archwilio Cymru helpu i ledaenu arferion da ymhlith yr amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus y mae'n eu harchwilio a'u harolygu.

4.3 Byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio, a byddai'n gallu manteisio ar eu cyngor arbenigol. Byddai'r Comisiwn Archwilio yn darparu gwasanaeth cyflogres ac adnoddau dynol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ogystal, byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan o'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, ynghyd â'r cyrff archwilio eraill. Dywedwyd bod arbedion maint yn bosibl yn y dyfodol, er enghraifft pan fyddai lesau adeiladau presennol y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol a Chomisiwn Archwilio Cymru yn cael eu hadolygu yn 2006-07.

4.4 Byddai'r gwaith archwilio yn y dyfodol ar y gwasanaethau yn y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) a gaiff eu cyfuno, yn dibynnu i raddau helaeth ar y newidiadau strwythurol fyddai'n cael eu gwneud pan fyddai'r sefydliadau hynny dod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i hysbysu'r Pwyllgor maes o law am y newidiadau i'r trefniadau archwilio yn sgil y cyfuniad.

4.5 Roedd swyddogion o Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad wedi cwrdd â Thollau Tramor a Chartref ar 8 Medi 2004 i drafod y trefniadau o ran Treth ar Werth. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad at Dollau Tramor a Chartref i ofyn am gadarnhad y byddai'r trefniadau presennol yn parhau tan 2007, ac roeddent yn aros am ateb.

4.6 Ymhlith yr atebolrwydd a'r asedion a fyddai'n cael eu trosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru oedd lesau adeiladau, offer TG a dodrefn, gweddillion arian parod a chronfeydd wrth gefn cyfatebol. Nid oedd unrhyw atebolrwyddau mawr nac atebolrwyddau digwyddiadol annisgwyl i bryderu yn eu cylch, megis hawliadau gan staff, ond oherwydd eu natur roeddent yn anodd i'w rhagweld.

4.7 Cymeradwyodd y Pwyllgor amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2005-06.

### Pwynt Gweithredu

Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi adroddiad i'r Pwyllgor maes o law ar y newidiadau i'r trefniadau archwilio yn sgil y cyfuniad - Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Eitem 5: Fersiwn Drafft Cod Arferion Archwilio ac Arolygu 2005

5.1 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'r Cod yn cynnwys gwaith archwilio ac arolygu Swyddfa Archwilio Cymru, ond y byddai'n statudol ran y gwaith o archwilio ac arolygu llywodraeth leol yn unig. Mae'r Cod drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Byddai'r Cod yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo mewn cyfarfod llawn.

5.2 Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i amgáu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gyda'r Cod pan gaiff ei gyflwyno gerbron y cyfarfod llawn.

Pwynt Gweithredu

Archwilydd Cyffredinol Cymru i amgáu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gyda'r Cod pan gaiff ei gyflwyno gerbron y cyfarfod llawn - Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Eitem 6: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf a 22 Medi 2004.

**Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, yn unol â Rheol Sefydlog 8.24(vi).**

## Sesiwn Breifat

## Eitem 7: Ystyried adroddiadau drafft y Pwyllgor 'Cyllid GIG Cymru 2004' ac 'Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004'

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ei adroddiadau 'Cyllid GIG Cymru 2004' ac 'Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004'.